Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gyfun Llangefni**
**Llangefni**
**Ynys Môn**
**LL77 7NG**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 23/07/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gyfun Llangefni yn ysgol gyfun ddwyieithog gymunedol naturiol ar gyfer disgyblion 11 i 18 oed, ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Ynys Môn. Mae 761 o ddisgyblion ar y gofrestr gan gynnwys 132 yn y chweched dosbarth. Daw'r disgyblion o dref Llangefni, a'r pentrefi ac ardaloedd gwledig o gwmpas. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn teithio o du allan i ddalgylch naturiol yr ysgol.

Mae 15% o ddisgyblion yn byw yn ardaloedd 20% mwyaf difreintiedig Cymru. Canran y disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yw 13.9%; mae'r ffigwr hwn yn is na'r canran cenedlaethol o 17.7%.

Mae tua 68% o ddisgyblion yn dod o gartrefi lle'r brif iaith yw'r Gymraeg a 87% o'r disgyblion yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf. Addysgir cyrsiau yn y Gymraeg a Saesneg ond y mwyafrif ohonynt trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae disgyblion yr ysgol yn cwmpasu'r ystod gallu llawn. Mae 16% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol yr ysgol, gyda thua 2% ohonynt ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigurau hyn yn is na'r ffigyrau cenedlaethol.

Penodwyd y pennaeth presennol i'w rôl yn 2013 wedi cyfnod byr fel pennaeth dros dro. Cyn hynny, roedd yn ddirprwy bennaeth yn yr ysgol. Mae'r uwch dîm arwain yn cynnwys dirprwy bennaeth a dau bennaeth cynorthwyol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Llangefni yn 2013-2014 yw £4,514. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Ynys Môn yw £5,155 a'r lleiafswm yw £4,305. Mae Ysgol Gyfun Llangefni yn y trydydd safle o'r pump ysgol uwchradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r nodweddion da yng ngwaith yr ysgol yn cynnwys:

- perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a'r chweched dosbarth;
- gwelliant ym mherfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn y dangosyddion sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau;
- addysgu effeithiol yn y mwyafrif o'r gwersi;
- cynnydd mewn lefelau presenoldeb sydd nawr yn cymharu'n ffafriol gydag ysgolion tebyg; ac
- ymddygiad da iawn gan y rhan fwyaf o'r disgyblion.

Fodd bynnag, mae perfformiad yn ddigonol oherwydd:

- bod perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn y dangosyddion sy'n cynnwys mathemateg a gwyddoniaeth yn is nag ysgolion tebyg;
- mae gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn lleiafrif o dangosyddion yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4;
- bod gormod o amrywiaeth mewn faint o gynnydd mae disgyblion yn ei wneud o fewn ac ar draws pynciau;
- nid yw'r trefniadau pontio yn sicrhau dilyniant cwricwlaidd priodol mewn lleiafrif o feysydd yng nghyfnod allweddol 3; ac
- nid yw'r addysgu mewn lleiafrif o'r gwersi yn cynnig digon o her i ddisgyblion.

### Rhagolygon gwella

Bernir bod y rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- bod gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, gyda ffocws priodol ar wella safonau yng nghyfnod allweddol 4;
- bod datblygiadau diweddar wedi cryfhau atebolrwydd rheolwyr a chysoni trefniadau rheolaeth llinell;
- bod gan uwch reolwyr syniad clir o gryfderau'r ysgol a llawer o'r meysydd sydd angen eu gwella;
- bod gormod o amrywiaeth yn ansawdd rheolwyr canol;
- bod trefniadau rheoli perfformiad yn anghyson yn yr ysgol; ac
- ni chaiff gweithgareddau datblygiad proffesiynol eu cydlynu'n ddigon da i effeithio'n ddigonol ar gysoni a chryfhau ansawdd yr addysgu.

## Argymhellion

A1 Gwella perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn y dangosyddion sy'n cynnwys mathemateg a gwyddoniaeth

A2 Gwella a chysoni ansawdd yr addysgu o fewn ac ar draws adrannau

A3 Rhannu'r arfer orau yn y ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm

A4 Cryfhau'r trefniadau pontio gyda mwy o ffocws ar ddilyniant cwricwlaidd

A5 Sicrhau bod rheolwyr canol yn chwarae rôl lawn yn y broses o reoli perfformiad

A6 Cryfhau rôl rheolwyr canol gyda ffocws cynyddol ar godi safonau a gwella ansawdd yr addysgu o fewn eu hadrannau

A7 Sicrhau bod y trefniadau ar gyfer datblygiad proffesiynol yn ffocysu'n briodol ar godi a chysoni ansawdd yr addysgu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn y dangosydd sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi disgyn ac yn 2013, roedd perfformiad ychydig yn is na'r hyn a ddisgwylir o ran lefel y cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol yn yr hanner is o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim ac eleni, am y tro cyntaf, mae'n is na chyfartaledd y teulu o ysgolion.

Mae cynnydd disgyblion rhwng y cyfnodau allweddol yn anwastad. Mae'n dda yn y dangosyddion sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau ond yn foddhaol yn y dangosydd sy'n cynnwys mathemateg.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y dangosydd sydd yn cynnwys ystod eang o gymwysterau wedi cynyddu'n sylweddol ond mae'r cymariaethau gydag ysgolion tebyg yn dangos darlun cymysg.

Mae perfformiad disgyblion yn y chweched dosbarth yn dda gyda phob un disgybl wedi cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae pob disgybl wedi gadael yr ysgol â chymhwyster cydnabyddedig. Wedi Blwyddyn 11, mae bron pob disgybl yn aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae hyn yn well na'r cyfartaledd sirol a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth o'u cyfuno wedi cynyddu'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf gyda pherfformiad yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion. Ac eithrio 2011, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion lle mae eu lefel y cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn debyg. Gwelir cynnydd tebyg yn y pynciau craidd yn unigol ac eithrio 2013 lle mae perfformiad yn erbyn ysgolion tebyg o ran lefel y cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn llai ffafriol.

Yng nghyfnod allweddol 3, mewn lleiafrif o bynciau, yn cynnwys mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg ar y lefelau uchaf, mae gwahaniaeth arwyddocaol ym mherfformiad bechgyn a merched. Yng nghyfnod allweddol 4, mae gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn lleiafrif o'r dangosyddion.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion sydd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol wedi bod yn dda.

Mewn gwersi, mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da a'r rhan fwyaf yn dangos agweddau positif tuag at eu dysgu. Maent yn dyfalbarhau ac yn awyddus i

wella eu perfformiad eu hunain. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiaeth o ran faint o gynnydd mae disgyblion yn ei wneud o fewn ac ar draws y pynciau. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw disgyblion, yn enwedig disgyblion mwy abl o fewn y grŵp, yn cyrraedd eu llawn botensial.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn gallu adalw gwybodaeth o wersi blaenorol a chysylltu'r dysgu'n effeithiol gyda chysyniadau a thestunau eraill. Mae llawer yn gweithio'n frwd ac yn barod i gyfrannu ar lafar yn ystod trafodaethau dosbarth. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o ddisgyblion sy'n cynnig atebion estynedig ar lafar.

Mae'r modd y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio mewn parau a grwpiau bach yn gryfder. Mae medrau gwrando disgyblion yn dda ac wrth weithio mewn parau a grwpiau, maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'r mwyafrif yn hyderus i drafod a herio'i gilydd a holi eu cwestiynau eu hunain.

Mae cywirdeb ysgrifennu'r mwyafrif yn dda. Maent yn gyfarwydd â phrif reolau atalnodi a threiglo ac mae eu geirfa bynciol yn briodol. Maent yn ysgrifennu at ystod o wahanol bwrpasau ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o bwrpas yr ysgrifennu a sut mae natur y gynulleidfa yn dylanwadu ar strwythur a chynnwys y ddogfen. Mae gan ychydig o ddisgyblion eirfa gyfoethog a soffistigedig. Maent yn dangos gafael gadarn ar gystrawen ac yn cynhyrchu gwaith ysgrifennu estynedig o ansawdd da iawn. Fodd bynnag, mae gwallau yn y gwaith ysgrifenedig ar draws yr ystod gallu gyda lleiafrif yn ansicr wrth ddefnyddio cyweiriau iaith mwy ffurfiol.

Mae medrau darllen mwyafrif o ddisgyblion yn dda. Yn y mwyafrif o wersi, mae disgyblion yn darllen yn rhugl gyda mynegiant priodol. Mae lleiafrif o ddisgyblion sydd ag oedrannau darllen yn is na'u hoedrannau cronolegol yn gwneud cynnydd da iawn o ganlyniad i grwpiau ymyrraeth a chymorth o fewn gwersi. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn hyderus wrth gywain gwybodaeth. Mae ganddynt ystod o strategaethau effeithiol i gasglu gwybodaeth, er enghraifft trwy sgimio a sganio er mwyn dod o hyd i ffeithiau, crynhoi a threfnu syniadau'n briodol. Lle mae medrau darllen lleiafrif o ddisgyblion yn wannach, maent yn cael hi'n anodd dehongli gwybodaeth ac mae eu mynegiant yn aneglur.

Mae medrau rhifedd mwyafrif o ddisgyblion yn briodol ac maent yn gallu mesur a chyfrifo yn gywir. Fodd bynnag, oherwydd natur y cynllunio, mae disgyblion yn tueddu i ymarfer ystod o fedrau rhifedd maent eisioes yn hyderus ynddynt yn hytrach na datblygu uwch fedrau priodol. Nid yw disgyblion yn ymarfer ystod digon eang o fedrau rhifedd yn ddigon aml ar draws y cwricwlwm.

Mae llyfrau mwyafrif o ddisgyblion yn daclus a threfnus. Fodd bynnag, mae llawysgrifen lleiafrif o ddisgyblion, yn enwedig y bechgyn, yn flêr gydag ychydig o waith ar goll.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'r rhan fwyaf yn hyderus bod yr ysgol yn delio'n briodol gyda'r achosion prin o fwlio sydd yn codi. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn gwersi ac ar safle'r ysgol yn dda iawn. Mae bron pob un yn cyrraedd gwersi'n brydlon, yn dangos cymhelliant amlwg ac yn meddu ar

agweddau cadarnhaol at ddysgu. Dangosant barch at oedolion ac ymwelwyr a chonsyrn tuag at eu cyfoedion.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi gwella'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Hyd at 2012, roedd lefelau presenoldeb disgyblion yn gosod yr ysgol ymysg y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefel y cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, yn 2013, roedd cyfraddau presenoldeb yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ac yn sylweddol uwch na'r disgwyl. Mae ffigyrau heb eu gwirio, o gymharu â'r un cyfnod y llynedd, yn dangos bod cyfraddau presenoldeb yn parhau i fod yn dda iawn. Yn y pedair blynedd ddiwethaf, mae lefelau gwaharddiadau dros dro wedi lleihau'n sylweddol. Bellach, mae'r lefelau hyn yn isel ac ni fu gwaharddiad parhaol ers 2012.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd gweithgareddau corfforol a bwyta'n iach. Mae'r rhan fwyaf yn cymryd rhan mewn gweithgareddau tu allan i'r ystafell ddosbarth sydd wedi eu trefnu fel rhan o'r ddarpariaeth 5x60. Fodd bynnag, teimla ychydig o ddisgyblion yn y chweched dosbarth nad oes digon o gyfle iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol ffurfiol.

Mae rôl y cyngor ysgol yn datblygu'n briodol gyda dau ddisgybl-lywodraethwr yn mynychu cyfarfodydd y corff llywodraethol. Gwna'r cyngor ysgol gyfraniadau gwerthfawr i amryw o agweddau o fywyd yr ysgol gan gynnwys dylanwadu ar bolisïau.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau yn y gymuned ac yn cyfrannu'n dda at waith elusennol. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'r medrau angenrheidiol sydd eu hangen arnynt i symud i'r cam nesaf o'u dysgu neu i fyd gwaith.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae profiadau dysgu yn cwrdd â gofynion statudol yn y tri chyfnod allweddol. Ceir arlwy eang o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Cyflwynir opsiynau sy'n bodloni bron pob disgybl ac yn arwain at gymwysterau priodol. Mae'r ysgol hefyd yn cyflwyno Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn effeithiol i holl ddisgyblion cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth.

Ceir amrediad addas o gyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â gweithgareddau allgyrsiol drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhoddir sylw da i'r Cwricwlwm Cymreig o fewn pynciau megis celf, cerdd, hanes, daearyddiaeth a gwyddoniaeth.

Mae gan yr ysgol gynlluniau a pholisïau addas i ymateb i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae cyfleoedd da i gymhwyso medrau llythrennedd yng nghyd-destun mwyafrif y pynciau ac mae enghraifft o waith arloesol effeithiol iawn o fewn ychydig iawn o adrannau. Mae'r ysgol wedi llunio awdit i adnabod cyfleoedd priodol i ddatblygu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael digon o ddylanwad ar ystod y profiadau yn y pynciau perthnasol.

Trefnir rhaglenni ymyrraeth priodol ar gyfer disgyblion sydd â medrau rhifedd a llythrennedd gwan, ac mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd da iawn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn briodol o fewn pynciau penodol. Megis dechrau mae pwyllgor eco'r disgyblion wrth hyrwyddo cynaliadwyedd o fewn yr ysgol.

**Addysgu: Digonol**

Ym mron pob gwers, mae gan athrawon berthynas weithio da gyda'u disgyblion ac mae rheolaeth ddosbarth yn effeithiol. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac mae llawer ohonynt yn modelu iaith yn effeithiol.

Mewn ychydig o wersi mae'r addysgu'n rhagorol. Yn y gwersi hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau cyson uchel ac mae cynllunio crefftus yn greiddiol i lwyddiant yr addysgu. Mae athrawon yn cynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau bod disgyblion yn derbyn profiadau annisgwyl a gwreiddiol sydd yn eu syfrdanu, eu ysgogi a'u herio i wneud cynnydd da iawn. Ceir defnydd da iawn o weithgareddau amrywiol a thasgau heriol i gynnal diddordeb a chymhelliant disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae brwdfrydedd amlwg athrawon dros eu pwnc yn treiddio drwy holl agweddau'r addysgu. Ceir holi treiddgar sy'n procio dealltwriaeth disgyblion, trafodaethau bwriadus a rhediad effeithiol i'r wers.

Yn y mwyafrif o wersi, mae'r cynllunio'n fanwl a phriodol. Mae athrawon yn annog disgyblion i gysylltu'r dysgu â materion cyfoes a digwyddiadau byd-eang. Ceir tasgau sy'n gynyddol heriol ac amseru effeithiol yn y wers. Mae athrawon a chymorthyddion yn cynnig adborth cyson ac yn gwirio dealltwriaeth a chynnydd disgyblion yn sensitif er mwyn cynnig cefnogaeth briodol. Mae holi'n briodol ac yn annog lleiafrif o ddisgyblion i gyfrannu'n dda iawn ar lafar.

Mewn lleiafrif o wersi, mae cynllunio annigonol yn golygu bod diffyg amrywiaeth a her yn y tasgau. O ganlyniad, mae rhediad y wers yn rhy araf ac nid yw'r gweithgareddau yn cwrdd yn llawn ag anghenion disgyblion er mwyn sicrhau cynnydd priodol. Yn y gwersi hyn, mae'r holi'n rhy gaeedig a'r gweithgareddau'n arwynebol. O ganlyniad, nid oes digon o gyfle i ddisgyblion ddatblygu'r ystod lawn o fedrau.

Mae trefniadau asesu'n briodol, ac yn ystod y misoedd diwethaf, mae ansawdd y marcio wedi gwella ac mae bellach yn gyffredinol dda.

Yn y mwyafrif o bynciau, derbynia disgyblion gyfleoedd addas i asesu eu gwaith hwy ac eraill, gydag ychydig o enghreifftiau da iawn. Mewn lleiafrif o wersi, mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gyfrannu tuag at bennu meini prawf llwyddiant defnyddiol ac arfarnu eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion yn sgil y rhain.

Mae gan yr ysgol system fentora addas sydd wedi ei sefydlu ers rhai blynyddoedd. Mae'r system hon yn darparu gwybodaeth fuddiol i arweinwyr, mentoriaid a rhieni am gynnydd disgyblion. Mae rôl aelodau'r uwch dim mewn olrhain cynnydd yn gadarn ac mae defnydd arweinwyr canol o'r system i fonitro a thracio wedi cryfhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r ysgol wedi addasu'r system o adrodd yn ôl i rieni. Mae'r system yn cwrdd â gofynion statudol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw'r sylwadau'n cynnig digon o arweiniad i ddisgyblion ar sut i wella. Mae rhieni disgyblion ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 yn derbyn adroddiadau interim defnyddiol yn fisol am gynnydd a chyflawniad eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae staff yn cefnogi iechyd a lles disgyblion yn effeithiol ac yn darparu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol bwrpasol. Mae'r gwersi addysg grefyddol a'r gwasanaethau boreol yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad ysbrydol, diwylliannol a chymdeithaol disgyblion. Mae'r ysgol yn meithrin gwerthoedd moesol cadarnhaol fel gonestrwydd, tegwch a pharch at eraill.

Mae'r strategaethau diweddar i wella presenoldeb wedi sicrhau gwelliant sylweddol yng nghyfraddau presenoldeb disgyblion. Mae'r strategaethau cadarn i hyrwyddo ymddygiad da wedi lleihau nifer y gwaharddiadau ac wedi arwain at welliant mewn ymagweddau ac ymddygiad disgyblion.

Mae'r gofal a chynhaliaeth a ddarperir gan dîm bugeiliol yr ysgol yn effeithiol a chefnogir eu gwaith yn effeithiol gan amryw o asiantaethau allanol megis yr heddlu, y gwasanaeth iechyd, seicolegydd addysg, a'r gwasanaethau cymdeithasol. Cydweithia'r ysgol yn agos ag asiantaethau arbenigol i sicrhau cynhaliaeth briodol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, disgyblion bregus a phlant mewn gofal.

Caiff disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol eu cynnwys ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar eu cyfer yn gynhwysfawr ac yn llwyddiannus a chânt gefnogaeth ardderchog gan y cymorthyddion yn y gwersi. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion disgyblion yn gyflym ac yn rhoi ymyrraeth a chymorth priodol a gwerthfawr i wella medrau llythrennedd. Cynhelir adolygiadau blynyddol yn unol â'r gofynion statudol a darperir cynlluniau addysg unigol dilys sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae disgyblion yn derbyn cyngor a chyfarwyddyd da pan maent yn dewis cyrsiau cyfnod allweddol 4. Mae'r ysgol wedi gwella'r trefniadau eleni i sicrhau eu bod yn cynnig cyngor ac arweiniad cynhwysfawr i ddisgyblion pan maent yn dewis cyrsiau ôl 16.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Barn**

Mae Ysgol Gyfun Llangefni yn gymuned glos, gynhwysol a gofalgar sydd yn adlewyrchu arwyddair yr ysgol 'Gorau Cynnydd, Cadw Moes'. Mae staff yn hyrwyddo'n effeithiol ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd dathlu amrywiaeth a gwerthfawrogi gwahanol ddiwylliannau. Mae gan ddisgyblion ag anableddau

fynediad llawn i'r cwricwlwm a gweithgareddau'r ysgol. Mae staff yn herio unrhyw stereoteipio neu ymddygiad gormesol mewn modd sensitif ac adeiladol.

Gwneir defnydd priodol o'r adnoddau sydd ar gael i gyfoethogi'r cwricwlwm a'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dda. Mae cyflenwad cadarn o adnoddau dysgu, gan gynnwys digon o adnoddau TGCh. Mae rhan fwyaf o adeiladau'r ysgol yn hen. Serch hynny, fe'u cedwir yn lan ac yn rhydd rhag sbwriel. Mae tir eang yr ysgol yn darparu cyfleoedd chwaraeon amrywiol, gan gynnwys ardal aml-gamp dan do newydd. Mae ansawdd a safon y toiledau yn dda. Gwneir defnydd effeithiol o furiau lliwgar yr ysgol i hybu goddefgarwch a dathlu llwyddiannau'r disgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 3 | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Yn ystod y 18 mis diwethaf, mae'r ysgol wedi wynebu cyfnod o drawsnewid gydag aelodaeth yr uwch dîm wedi newid a nifer o benodiadau newydd ar lefel rheolaeth ganol. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r pennaeth wedi cyflwyno ei weledigaeth yn glir i'r staff. Mae wedi grymuso nifer o agweddau o waith yr ysgol, er enghraifft trefniadau a ffocws cyfarfodydd rheolaeth llinell, a chryfhau ffocws arweinwyr ar godi safonau a gwella ansawdd yr addysgu. Mae cefnogaeth werthfawr y mentor allanol ac apwyntiad diweddar y dirprwy bennaeth wedi bod yn allweddol i'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae datblygu systemau rheolaethol tynn wedi arwain at atebolrwydd cynyddol ymhlith yr uwch dîm rheoli a rheolwyr canol er mwyn cynnal a chodi safonau yn yr ysgol. Gyda chefnogaeth y corff llywodraethol, bu'r pennaeth yn llwyddiannus iawn yn lleihau'r diffyg sylweddol oedd yn y gyllideb.

Yn ystod y cyfnod o drawsnewid, mae cyfrifoldebau'r uwch dîm rheoli wedi eu rhannu'n briodol dros dro er mwyn ymateb i flaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae pob un o'r uwch dîm rheoli yn cydweithio'n effeithiol ac yn rhannu'r un weledigaeth, sef gwella'r deilliannau i ddisgyblion. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae gormod o gyfrifoldebau gan y pennaeth a'r dirprwy i gyflawni eu cyfrifoldebau yn llawn.

Yn gyffredinol, mae rolau a chyfrifoldebau staff addysgu wedi eu diffinio'n glir. Fodd bynnag, mae amrywiaeth yn y modd mae lleiafrif o arweinwyr yn gweithredu'n strategol.

Ers mis Medi, mae cyfarfodydd pwrpasol rhwng y rheolwyr canol a'u rheolwr llinell. Mae strwythur clir i'r cyfarfodydd hyn sydd wedi ei seilio ar galendr monitro a hunanarfarnu'r ysgol. Mae cofnodion y cyfarfodydd yn nodi cyfrifoldebau gweithredu a chamau dilynol priodol. Mae'r cyfarfodydd wedi cryfhau gafael yr uwch dîm rheoli ar finiogi ansawdd gwaith yr adrannau gan herio a chefnogi yn effeithiol.

Mae mwyafrif o reolwyr canol yn cynnig arweiniad o ansawdd da ac yn gosod disgwyliadau uchel a chyfeiriad clir i waith y staff yn eu hadrannau. Maent yn ymateb

yn weithredol i ganfyddiadau monitro adrannol gan wneud newidiadau allweddol er mwyn cael cysondeb adrannol ar faterion megis rhoi adborth pwrpasol a chlir i ddisgyblion am eu cynnydd. Maent yn adnabod yr arferion gorau o fewn eu hadrannau ac yn sicrhau cysondeb drwy rannu'r arferion gorau. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau rheoli perfformiad wedi eu cyflawni'n llawn ac nid yw lleiafrif o reolwyr canol wedi cael digon o effaith ar wella a chysoni ansawdd yr addysgu yn eu hadrannau.

Mae'r corff llywodraethol profiadol yn cynnig llawer o gefnogaeth i'r pennaeth a'r ysgol. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol ac yn herio'n briodol. Ceir strwythur o bwyllgorau addas am wahanol agweddau ar fywyd yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn y cynllun gwella ysgol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Ers penodi'r pennaeth newydd, mae'r ysgol wedi cryfhau ei gweithdrefnau hunanarfarnu a gwella ansawdd. Mae hyn wedi cyfrannu at welliannau ym mhob dangosydd allweddol yng nghyfnod allweddol 3, y mwyafrif o'r dangosyddion yng nghyfnod allweddol 4, presenoldeb a chynnal perfformiad uchel yn y chweched dosbarth. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn wedi cael digon o amser i gael effaith ar berfformiad yr ysgol yn y lleiafrif o'r dangosyddion pwysig yng nghyfnod allweddol 4 a'r pynciau craidd.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn casglu tystiolaeth uniongyrchol, ddefnyddiol wrth graffu ar waith disgyblion. Yn dilyn y gweithgaredd hwn, mae'r arweinwyr yn rhoi adborth gwerthfawr i athrawon er mwyn rhannu arfer dda ac amlygu meysydd i'w gwella. O ganlyniad, mae ansawdd y marcio ac adborth i'r disgyblion yn gyson dda ar draws a thu fewn y rhan fwyaf o adrannau. Yn ddiweddar, mae'r uwch dîm rheoli wedi cryfhau eu dealltwriaeth o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn yr addysgu trwy broses drylwyr o arsylwi gwersi. Fodd bynnag, nid yw'r rheolwyr canol wedi arsylwi gwersi athrawon yn eu meysydd cyfrifoldeb. O ganlyniad, nid oes gan y rheolwyr hyn ddarlun digon cyflawn o ansawdd yr addysgu yn eu hadrannau. Mae'r ysgol wedi canfasio barnau disgyblion ar waith yr ysgol ond nid ydynt yn holi rhieni am eu barn yn ddigon aml.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu ysgol gyfan yn ddogfen gynhwysfawr sy'n cynnwys dadansoddiad trylwyr o ddata perfformiad ac yn amlinellu llawer o'r cryfderau a meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, mewn ychydig o feysydd, mae'r arfarniadau yn rhy hael ac nid yw ychydig o agweddau i'w gwella'n cael eu hadnabod. Mae cyswllt priodol rhwng cynllun datblygu yr ysgol a deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu ysgol gyfan. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys camau gweithredu priodol i ddiwallu blaenoriaethau'r ysgol, meini prawf mesuradwy a thargedau heriol ar gyfer gwella.

Mae'r rhan fwyaf o'r adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn cynnwys dadansoddiad manwl o ddata perfformiad. Mae llawer o'r rhain yn cynnwys dadansoddiad buddiol o'r adborth crynodol o'r byrddau arholi er mwyn amlygu materion penodol i'w gwella. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif yn ystyried effaith ansawdd yr addysgu ar safonau yn

ddigon trylwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau datblygu adrannol yn cynnwys strategaethau priodol i ymateb i'r meysydd i'w gwella a amlygwyd yn yr adroddiadau hunanarfarnu adrannol. Mae'r holl gynlluniau'n cynnwys targedau uchelgeisiol a meini prawf mesuradwy. Mae'r mwyafrif ohonynt yn cynnwys strategaethau a chamau gweithredu priodol er mwyn gwella. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf yn ystyried cost y gweithgareddau ynddynt ac nid yw lleiafrif yn cynllunio'n ddigon trwyadl i wella ansawdd yr addysgu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r ysgol wedi sefydlu amrediad o bartneriaethau dylanwadol sy'n cyfoethogi profiadau disgyblion. Mae cyfathrebu gyda rhieni'n briodol.

Mae cydweithio effeithiol gydag ysgolion uwchradd eraill, coleg, a chwmni hyfforddiant lleol, yn cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 4 a'r chweched ddosbarth. Drwy hyn, mae'r ysgol wedi sicrhau dilyniant da iawn i gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol o lefel 1 hyd at lefel 3. Ceir cydweithio pwrpasol hefyd gyda choleg sy'n trefnu hyfforddiant i ddarpar athrawon.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n bwrpasol, trwy aelodaeth o grŵp partneriaeth sirol, i sicrhau bod y cwricwlwm yn gost effeithiol. Gweithredir trefniadau rheolaidd i fonitro ansawdd y ddarpariaeth a'r addysgu sydd yn digwydd ar safleoedd eraill. Mae'r ysgol hefyd yn gweithio'n dda gyda nifer o gyflogwyr, gan gynnwys atomfa Wylfa i gyfoethogi profiadau disgyblion, er enghraifft trwy brofiad gwaith. Mae'r ysgol hefyd yn cynllunio'n strategol gydag asiantaethau ac arbenigwyr amlddisgyblaethol i greu cyfundrefn gefnogol i unigolion a theuluoedd.

Mae'r gweithgareddau pontio yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym i gymdeithas yr ysgol. Er hyn, ni fu cyfarfodydd yn 2013 rhwng rhai o'r adrannau craidd a'r ysgolion cynradd er mwyn sicrhau ansawdd asesiadau disgyblion. Yn gyffredinol, mae cyfleoedd cyfyng i gynllunio ar y cyd rhwng adrannau unigol a'r ysgolion cynradd i sicrhau dilyniant mewn dulliau dysgu ac addysgu a chynnydd pynciol yn y medrau.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm. Mae staff ategol yn brofiadol ac yn gwneud cyfraniad pwysig i rediad a gwaith yr ysgol. Mae ansawdd yr hyfforddiant a'r cyfleoedd datblygiad proffesiynol a dderbynia'r holl staff yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r rhaglen datblygiad proffesiynol wedi ffocysu'n ddigonol ar wella ansawdd yr addysgu ac nid oes cyfle i athrawon gymryd rhan mewn arsylwi ystafell ddosbarth uniongyrchol a myfyrio ar eu harfer addysgu eu hunain. Eleni, sefydlwyd pum gweithgor sy'n ffocysu ar nifer o flaenoriaethau'r cynllun datblygu'r ysgol. Yn gyffredinol, mae'r grwpiau hyn wedi gweithio'n frwdfrydig ac yn dechrau dylanwadu ar arfer broffesiynol staff.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, o ganlyniad i leihad yn mhoblogaeth yr ysgol, mae'r ysgol wedi wynebu sefyllfa o ddyled. Felly, mae'r pennaeth a'r pwyllgor cyllid wedi cymryd camau breision i gynllunio'n effeithiol i leihau'r ddyled. Mae'r panel cwricwlwm a chyllid, y pennaeth a'r swyddog gweinyddol yn chwarae rôl allweddol

mewn llunio a rheoli'r gyllideb yn effeithiol ac effeithlon.  O ystyried safonau yng nghyfnod allweddol 4 ac ansawdd yr addysgu, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pynciau craidd wedi cynyddu'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf gyda pherfformiad ers 2010 yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion. Ac eithrio 2011, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol yn yr hanner uwch o ysgolion lle mae lefelau cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn debyg. Gwelir cynnydd tebyg yn y pynciau craidd yn unigol. Mae perfformiad yn y Gymraeg ar lefel 5 neu'n uwch yng nghyfnod allweddol 3 yn uwch na chyfartaledd y teulu ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, ac eithrio 2013, mae'r perfformiad wedi gosod yr ysgol ymhlith yr hanner is o ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 5 neu'n uwch yn dangos patrwm tebyg. Mae perfformiad wedi gwella ers 2009 ac yn gosod yr ysgol yn uwch na chyfartaledd y teulu ym mhob un o'r flwynyddoedd. Yn 2013, am y tro cyntaf ers 2010, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol yn yr hanner uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 5 neu'n uwch wedi gwella'n gyson ers 2010 ac wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu. Yn 2013 am y tro cyntaf ers 2010, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol yn yr hanner uwch o ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ar lefel 5 neu'n uwch wedi gwella ers 2011, ac mae'n uwch na chyfartaledd y teulu. Yn 2013, am y tro cyntaf ers 2010, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg.

Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn Cymraeg wedi bod yn well na chyfartaledd y teulu mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn Saesneg yn uwch na chyfartaledd y teulu mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Ers 2011, mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn mathemateg wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu. Ers 2009, mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn gwyddoniaeth wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu. Fodd bynnag, ym mhob un o'r pynciau craidd, mae perfformiad yn erbyn ysgolion sydd â lefelau tebyg o gymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn llai cadarn.

Yng nghyfnod allweddol 4, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad yn y trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi gostwng, ac yn 2013, roedd perfformiad ychydig yn is na disgwyliadau wedi eu modelu. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol yn yr hanner is o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim ac eleni, am y tro cyntaf, mae'n is na chyfartaledd y teulu o ysgolion. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi dangos patrwm tebyg.

Yn gyffredinol, dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y trothwy lefel 2 wedi cryfhau. Mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol yn yr hanner uwch o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae perfformiad yn erbyn y teulu o ysgolion yn llai ffafriol. Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 1 wedi gwella o flwyddyn i flwyddyn ac eleni, am y tro cyntaf, yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgolion am ddim. Yn ystod yr un cyfnod, mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi bod yn agos at gyfartaledd y teulu. Mae

perfformiad yn y sgôr bwyntiau cyfartalog ehangach wedi'i chapio wedi gwella ers 2011 ac wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu yn y pedair blynedd diwethaf ac yn gosod yr ysgol yn yr hanner uwch o ysgolion tebyg.

Yn y pedair blynedd diwethaf, ac eithrio 2012, mae perfformiad mewn Cymraeg iaith gyntaf ar lefel 2 wedi aros yn gyson. Mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu ac, yn 2013, am y tro cyntaf ers 2010, mae perfformiad yn gosod yr ysgol ymhlith yr hanner uwch o ysgolion tebyg.

Ers 2011, mae perfformiad ar lefel 2 Saesneg wedi gwaethygu, ac yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, wedi gosod yr ysgol yn yr hanner isaf o ysgolion tebyg ond yn uwch na chyfartaledd y teulu. Mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 2 wedi gostwng ers 2011, ac yn ystod y ddwy flwynedd ddiwethaf, mae wedi gosod yr ysgol yn y chwarter isaf o ysgolion tebyg. Eleni am y tro cyntaf, mae perfformiad wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion. Mae perfformiad ar lefel 2 gwyddoniaeth hefyd wedi gostwng ers 2011, ac am y tro cyntaf eleni, mae wedi gosod yr ysgol yn yr hanner is o ysgolion tebyg. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu.

Mae cynnydd disgyblion rhwng y cyfnodau allweddol yn gadarn. Rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 4, mae'n dda yn y dangosyddion sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau, megis y trothwy lefel 2 a'r trothwy lefel 1 ond yn foddhaol yn y dangosydd sy'n cynnwys mathemateg.

Mae perfformiad disgyblion yn y chweched dosbarth yn dda gyda phob un disgybl wedi cyrraedd y trothwy lefel 3 yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae pob disgybl wedi gadael yr ysgol â chymhwyster cydnabyddedig. Wedi Blwyddyn 11, mae bron pob disgybl yn aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae hyn yn well na'r cyfartaledd sirol a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Yng nghyfnod allweddol 3, mewn lleiafrif o bynciau, yn cynnwys mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg ar lefel 6 neu'n uwch, mae gwahaniaeth arwyddocaol ym mherfformiad bechgyn a merched. Yng nghyfnod allweddol 4, mae gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn lleiafrif o'r dangosyddion.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol wedi bod yn gyffredinol dda.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 180 | 98 | 79 | 2 | 1 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 54% | 44% | 1% | 1% | |
| | | 43% | 53% | 3% | 1% | |
| The school deals well with any bullying | 180 | 40 | 120 | 18 | 2 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 22% | 67% | 10% | 1% | |
| | | 26% | 58% | 14% | 2% | |
| I have someone to talk to if I am worried | 180 | 75 | 93 | 10 | 2 | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni. |
| | | 42% | 52% | 6% | 1% | |
| | | 38% | 53% | 8% | 1% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 180 | 45 | 103 | 28 | 4 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 25% | 57% | 16% | 2% | |
| | | 23% | 57% | 18% | 3% | |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 180 | 80 | 78 | 18 | 4 | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 44% | 43% | 10% | 2% | |
| | | 45% | 45% | 8% | 2% | |
| I am doing well at school | 180 | 58 | 109 | 12 | 1 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 32% | 61% | 7% | 1% | |
| | | 32% | 62% | 5% | 1% | |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 180 | 63 | 108 | 8 | 1 | Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| | | 35% | 60% | 4% | 1% | |
| | | 38% | 55% | 6% | 1% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 180 | 36 | 98 | 38 | 8 | Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 20% | 54% | 21% | 4% | |
| | | 20% | 54% | 21% | 5% | |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 180 | 66 | 93 | 17 | 4 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 37% | 52% | 9% | 2% | |
| | | 45% | 47% | 7% | 1% | |
| Pupils behave well and I can get my work done | 180 | 16 | 87 | 71 | 6 | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 9% | 48% | 39% | 3% | |
| | | 10% | 57% | 27% | 6% | |
| Staff treat all pupils fairly and with respect | 180 | 50 | 89 | 40 | 1 | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |
| | | 28% | 49% | 22% | 1% | |
| | | 29% | 51% | 17% | 4% | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| The school listens to our views and makes changes we suggest | 180 | 40<br>22% | 107<br>59% | 27<br>15% | 6<br>3% | Mae'r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni'n eu hawgrymu. |
| | | 16% | 54% | 25% | 5% | |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | 180 | 60<br>33% | 111<br>62% | 8<br>4% | 1<br>1% | Rwy'n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| | | 34% | 60% | 5% | 1% | |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | 180 | 60<br>33% | 96<br>53% | 22<br>12% | 2<br>1% | Mae'r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| | | 36% | 54% | 9% | 1% | |
| The staff respect me and my background | 180 | 78<br>43% | 94<br>52% | 6<br>3% | 2<br>1% | Mae'r staff yn fy mharchu i a'm cefndir. |
| | | 37% | 54% | 7% | 2% | |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | 180 | 69<br>38% | 92<br>51% | 19<br>11% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| | | 36% | 56% | 7% | 1% | |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | 68 | 16<br>24% | 39<br>57% | 8<br>12% | 5<br>7% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| | | 28% | 52% | 15% | 5% | |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | 28 | 3<br>11% | 16<br>57% | 8<br>29% | 1<br>4% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |
| | | 28% | 50% | 16% | 6% | |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 95 | 24 | 56 | 9 | 4 | 2 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 25% | 59% | 9% | 4% | | |
| | | 43% | 51% | 4% | 1% | | |
| My child likes this school. | 97 | 34 | 55 | 5 | 1 | 2 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 35% | 57% | 5% | 1% | | |
| | | 46% | 48% | 4% | 1% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 97 | 31 | 48 | 7 | 3 | 8 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 32% | 49% | 7% | 3% | | |
| | | 49% | 45% | 3% | 1% | | |
| My child is making good progress at school. | 97 | 43 | 45 | 5 | 1 | 3 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 44% | 46% | 5% | 1% | | |
| | | 45% | 48% | 4% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 97 | 13 | 56 | 12 | 3 | 13 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 13% | 58% | 12% | 3% | | |
| | | 21% | 55% | 11% | 3% | | |
| Teaching is good. | 95 | 21 | 58 | 12 | 1 | 3 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 22% | 61% | 13% | 1% | | |
| | | 33% | 57% | 5% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 97 | 41 | 52 | 2 | 0 | 2 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 42% | 54% | 2% | 0% | | |
| | | 50% | 45% | 2% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 96 | 23 | 54 | 13 | 1 | 5 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 24% | 56% | 14% | 1% | | |
| | | 31% | 53% | 9% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 96 | 22 | 50 | 10 | 7 | 7 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 23% | 52% | 10% | 7% | | |
| | | 32% | 49% | 9% | 2% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 96 | 30 | 52 | 7 | 2 | 5 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 31% | 54% | 7% | 2% | | |
| | | 33% | 53% | 7% | 1% | | |
| My child is safe at school. | 97 | 33 | 56 | 7 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 34% | 58% | 7% | 0% | | |
| | | 41% | 52% | 3% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 94 | 22 | 46 | 10 | 4 | 12 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 23% | 49% | 11% | 4% | | |
| | | 32% | 46% | 7% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 96 | 24 | 54 | 13 | 5 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 25% | 56% | 14% | 5% | | |
| | | 34% | 50% | 11% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 94 | 31 | 48 | 10 | 4 | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 33% | 51% | 11% | 4% | | |
| | | 41% | 48% | 7% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 96 | 22 | 44 | 22 | 5 | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 23% | 46% | 23% | 5% | | |
| | | 27% | 51% | 10% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 93 | 23 | 54 | 7 | 2 | 7 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 25% | 58% | 8% | 2% | | |
| | | 35% | 53% | 5% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 91 | 14 | 38 | 11 | 2 | 26 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 15% | 42% | 12% | 2% | | |
| | | 26% | 46% | 8% | 2% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 96 | 18 | 52 | 16 | 4 | 6 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 19% | 54% | 17% | 4% | | |
| | | 35% | 50% | 9% | 2% | | |
| The school is well run. | 95 | 22 | 47 | 11 | 5 | 10 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 23% | 49% | 12% | 5% | | |
| | | 40% | 49% | 5% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Catherine Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Gareth Wyn Jones | Arolygydd Tîm |
| Meinir Rees | Arolygydd Tîm |
| Ceri Jones | Arolygydd Tîm |
| David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Rhian Wyn Griffiths | Arolygydd Cymheiriaid |
| Huw Davies | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy’n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a’u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i’w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu’n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi’i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o’r holl gymwysterau a gymeradwywyd i’w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â’u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu’u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |